# TRIN GWALLT A HARDDWCH L2

## Tystysgrif mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch
**Corff Dyfarnu:** VTCT

### Cyflwyniad i'r pwnc

Nod y cymhwyster hwn yw defnyddio'r sector trin gwallt a harddwch, sy'n hynod o ddiddorol, fel cyfrwng i feithrin nifer o sgiliau ac i gyflwyno gwybodaeth i'r myfyrwyr a fydd yn eu cynorthwyo i symud ymlaen at ragor o astudio ac ystod eang o yrfaoedd.

Mae'r Dystysgrif Estynedig Lefel 2 VTCT mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch yn gymhwyster a gafodd ei gynllunio yn benodol i gyflwyno a meithrin sgiliau ymarferol mewn trin gwallt a therapïau harddwch, gan alluogi dysgwyr i ddarparu gwasanaethau yn ogystal â helpu eraill.

### Cynnwys y Cwrs

Uned orfodol

- Creu delwedd yn seiliedig ar thema

Unedau dewisol

- Celf ewinedd
- Triniaeth sylfaenol i'r dwylo
- Siampwio a thrin gwallt
- Chwythsychu a gorffen y gwallt
- Plethu a throelli'r gwallt

Nod y Dystysgrif Lefel 2 VTCT mewn Sgiliau Gwallt a Harddwch yw cynorthwyo pobl ifanc i feithrin:

- Dealltwriaeth eang a chynhwysfawr o'r sector gwallt a harddwch
- Sgiliau academaidd ac astudio a fydd yn eu helpu i symud ymlaen yn y sector gwallt a harddwch a'r sectorau galwedigaethol ehangach eraill.

### Lleoliad

Bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno yn y salonau trin gwallt, y salonau therapïau harddwch a'r ganolfan adnoddau dysgu ar safle Iâl Coleg Cambria.

### Asesu

Bydd yr asesiad yn cynnwys gweithgareddau asesu ymarferol, profion ysgrifenedig, aseiniadau a holi ar lafar.